tgp CYMRU
PLANT A THEULUOEDD
CHILDREN AND FAMILIES




# CYNLLUN STRATEGOL

***Strategaeth hyderus, sy'n cael ei harwain gan werthoedd ar gyfer Cymru sy'n newid***

www.tgpcymru.org.uk

2026 | 2030

# CROESO

**Mae TGP Cymru mewn cyfnod tyngedfennol. Mae'r galw am ein gwasanaethau yn cynyddu wrth i blant, pobl ifanc a theuluoedd wynebu mwy o bwysau o dlodi a heriau iechyd meddwl, i lywio systemau cymhleth a all eu gadael heb gael eu clywed.**

Wedi'i ffurfio ar ôl i Gymdeithas y Plant dynnu'n ôl o Gymru yn 2002, mae TGP Cymru wedi bwrw ymlaen â gwaddol eu gwaith ac wedi tyfu i fod yn elusen Gymreig annibynnol unigryw, wedi'i seilio ar wybodaeth leol, wedi'i llunio gan brofiad bywyd, ac sy'n gweithredu o fewn tirwedd gofal cymdeithasol, addysg a gwasanaethau cyhoeddus datganoledig Cymru i ddiwallu anghenion esblygol plant, pobl ifanc a theuluoedd ar draws Cymru sy'n newid.

Rydym yn gryfach nag erioed: darparwr eiriolaeth statudol a chymunedol mwyaf Cymru, arweinydd ym maes ymarfer adferol, ac elusen ddibynadwy sy'n adnabyddus am ddilysrwydd, tosturi ac effaith.

Mae ein Cynllun Strategol newydd yn adeiladu ar sylfeini cadarn, wedi'u llunio gan leisiau staff, ymddiriedolwyr, plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr a phartneriaid. Mae'n cael ei lywio gan dirwedd polisi a deddfwriaethol esblygol Cymru, gan gynnwys diwygiadau disgwyliedig ym maes digartrefedd, llywodraethu amgylcheddol, cymorth i deuluoedd a thrawsnewid gwasanaethau cyhoeddus ehangach. Mae'r newidiadau hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd ymyrraeth gynnar, arferion sy'n seiliedig ar hawliau a chydweithrediad traws-sector.



## DATGANIAD CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Mae TGP Cymru wedi ymrwymo i greu gwasanaethau teg, hygyrch a chynhwysol. Rydym yn cofleidio amrywiaeth ar draws pob agwedd ar ein gwaith, yn cydnabod ac yn herio gwahaniaethu, ac yn sicrhau bod plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr a chydweithwyr o bob cefndir yn gallu cymryd rhan yn llawn. Mae tegwch a chynhwysiant yn llunio ein harfer, ein diwylliant a'n heffaith.

## YMRWYMIAD EFFAITH

Byddwn yn dangos ein heffaith trwy dystiolaeth, profiad byw a mesurau canlyniadau cyson. Ein nod yw gwella gwireddu hawliau, lles, perthnasoedd, diogelwch a hyder wrth wneud penderfyniadau, gan ddangos cynnydd clir, mesuradwy trwy gydol y cynllun hwn.

CYNLLUN STRATEGOL
2026|2030

# TROSOLWG O'R GWASANAETH

Mae TGP Cymru yn darparu ystod eang o wasanaethau ledled Cymru, gan gynnwys eiriolaeth plant statudol (Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol, Cynnig Gweithredol, Ymwelwyr Preswyl ac Eiriolaeth Iechyd), Eiriolaeth i Rieni, Gwasanaethau Cyfranogi, Cyfarfodydd Grŵp Teuluol a rhaglenni Adferol, cefnogaeth i Gyn-filwyr a'u teuluoedd, gweithio gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, cefnogaeth i bobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu'n ceisio lloches, pasbortau cyfathrebu ac atal digartrefedd drwy Tîm o Amgylch y Denantiaeth.

Mae'r gwasanaethau eang hyn yn golygu ein bod yn gyfrannwr allweddol at flaenoriaethau cenedlaethol ym maes atal, cynhwysiant, ymyrraeth gynnar ac ymarfer sy'n seiliedig ar hawliau.



# PAM RYDYN NI'N EI WNEUD

Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru yn parhau i wynebu pwysau sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn ac yn mynd yn fwy cymhleth. Mae tua 30% o blant yn byw mewn tlodi, un o'r cyfraddau uchaf yn y DU, sy'n effeithio ar eu lles, eu diogelwch a'u profiadau o ddydd i ddydd. Mae'r galw am wasanaethau cyhoeddus yn parhau i gynyddu: gofalwyd am 7198 o blant ym mis Mawrth 2024, ac aeth bron i 2000 i ofal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn bennaf oherwydd cam-drin neu esgeulustod. Mae llawer wedi profi trawma, ansefydlogrwydd neu darfu ar eu haddysg.

Mae cyfran gynyddol - 4.7%, yn blant sy'n ceisio lloches sy'n cyrraedd ar eu pennau eu hunain ar ôl ffoi rhag rhyfel ac erledigaeth. Maent angen cymorth arbenigol sy'n seiliedig ar drawma i lywio systemau cyfreithiol, gofal cymdeithasol ac addysg gymhleth.

Mae teuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn wynebu anghydraddoldebau sylweddol a hirsefydlog, gan gynnwys canlyniadau iechyd gwael, gwahaniaethu mewn addysg a rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau. Er gwaethaf buddsoddiad wedi'i dargedu, mae materion systemig yn parhau, sy'n gofyn am gymorth diwylliannol ymatebol.

Mae teuluoedd â phlant anabl yn profi rhwystrau cyfathrebu parhaus, gwybodaeth hygyrch gyfyngedig, cymorth arbenigol anghyson a phrinder gweithwyr proffesiynol sydd wedi cael hyfforddiant BSL ac sy'n ymwybodol o niwrowahaniaeth. Gan ragweld y bydd cyffredinolrwydd anabledd yn cynyddu, mae unrhyw anghenion heb eu diwallu mewn perygl o ddod hyd yn oed yn fwy amlwg heb ymyrraeth gynnar, hygyrch.

Mae cyn-filwyr a'u teuluoedd yn wynebu heriau sy'n gysylltiedig â thrawma, iechyd meddwl, ansefydlogrwydd tai ac ailintegreiddio, ac mae plant yn cael eu heffeithio gan darfu ar addysg, cyfrifoldebau gofalu neu straen teuluol.

Mae digartrefedd yn parhau i effeithio ar bobl ifanc a theuluoedd, gydag ansefydlogrwydd tai, costau byw cynyddol a thenantiaethau ansicr yn cyfrannu at drallod emosiynol. Mae angen eiriolaeth gref ar bobl ifanc â phrofiad gofal, yn arbennig, i amddiffyn eu hawliau a'u sefydlogrwydd.

Ar draws ein holl wasanaethau, mae plant a phobl ifanc yn dweud wrthym eu bod eisiau cael rhywun i wrando arnynt, eu trin yn deg, teimlo'n ddiogel a bod eu hunaniaeth yn cael ei barchu. Mae rhieni a gofalwyr eisiau gwybodaeth gliriach a chefnogaeth gynharach. Mae teuluoedd eisiau systemau tosturiol a chymorth ar yr adegau sy'n bwysig.

***Dyma pam rydyn ni'n gwneud yr hyn rydyn ni'n ei wneud.***

**Mae TGP Cymru yn bodoli i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, hybu hawliau a chreu'r amodau lle gellir clywed a chefnogi pob plentyn, person ifanc a theulu, waeth beth fo'u cefndir, hunaniaeth neu statws mewnfudo. Wrth i Gymru fynd i mewn i gyfnod o newid gwleidyddol a chymdeithasol, mae ein rôl fel elusen annibynnol ddibynadwy yn bwysicach nag erioed. Rydym yn defnyddio tystiolaeth, profiad bywyd a pherthnasoedd cryf i sicrhau bod systemau'n gweithio gyda phobl a bod lleisiau prin yn cael eu clywed ac yn llunio penderfyniadau.**

**Mae ein hymrwymiad yn syml:**
***Mae pob plentyn a theulu yn haeddu'r cyfle i ffynnu.***

## SUT WNAETHOM DDATBLYGU EIN STRATEGAETH

Er mwyn datblygu'r strategaeth hon, gwnaethom ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr, staff, ymddiriedolwyr a phartneriaid allweddol ledled Cymru. Roedd arolygon staff, digwyddiadau rhwydweithio, sesiynau ymddiriedolwyr ac ymgynghoriadau yn darparu profiad byw a mewnwelediad ymarferol a luniodd bob rhan o'r cynllun hwn.

Fe wnaeth ymarferwyr rheng flaen dynnu sylw at anghenion sy'n dod i'r amlwg a chymhlethdod cynyddol i deuluoedd. Pwysleisiodd plant a phobl ifanc bwysigrwydd cael eu clywed, eu parchu a chael gwybodaeth. Disgrifiodd rhieni a gofalwyr fylchau mewn cymorth, yn enwedig ym maes ADY, iechyd meddwl a llywio systemau cymhleth.

Hefyd, fe wnaethom ymgynghori ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd, prifysgolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau partner i ddeall cyfleoedd a heriau sector ehangach. Atgyfnerthodd eu hadborth bwysigrwydd eiriolaeth, ymarfer adferol, cyfranogiad, cydweithredu ac arloesi sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae'r cyfraniadau hyn yn sicrhau bod ein strategaeth wedi'i gwreiddio mewn realiti, wedi'i lunio gan brofiad byw ac yn cyd-fynd ag anghenion Cymru heddiw ac yn y dyfodol.

## GWELEDIGAETH

Ein gweledigaeth yw Cymru lle mae pob plentyn, person ifanc neu oedolyn yn nodi ac yn mynegi eu hanghenion, yn cael yr hyder i gael mynediad at wasanaethau pan fydd angen, yn hapus, yn cael ei werthfawrogi, yn mwynhau perthnasoedd meithrin cadarnhaol, yn perthyn ac yn cael ei garu.

## CENHADAETH

Bod yr elusen flaenllaw yng Nghymru sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau. I ddarparu gwasanaethau sy'n sensitif i anghenion cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol.

Sicrhau bod plant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau yn cael dweud eu dweud mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Sicrhau newid a fydd o fudd i blant, pobl ifanc, teuluoedd, cymunedau a chymdeithas gyfan.



CYNLLUN STRATEGOL
2026|2030

## GWERTHOEDD

Mae TGP Cymru wedi ymrwymo i wireddu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Deddf Hawliau Dynol 1998 yn llawn.

Credwn fod gan bawb:

- yr hawl i gael eu barn a'u dymuniadau wedi'u hystyried.
- eu dealltwriaeth eu hunain o'u sefyllfa, eu hunaniaeth, eu lles a'u hanghenion.
- yr hawl i'r gefnogaeth orau trwy rymuso a dulliau adferol.
- yr hawl i allu cymryd rhan lawn mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.



## AMCANION YR ELUSEN

a) Lleddfu plant a phobl ifanc sydd mewn angen materol, corfforol, meddyliol neu emosiynol, a'u teuluoedd a'u gofalwyr, a hefyd

b) I leddfu'r rhai mewn angen, oherwydd ieuenctid, oedran, salwch, anabledd, caledi ariannol neu anfantais arall, yn enwedig ond heb fod yn gyfyngedig i:

i. Eirioli dros hawliau a thriniaeth deg a hyrwyddo a diogelu annibyniaeth unigolion.

ii. Darparu cyngor, cymorth, cefnogaeth, gwasanaethau a hyfforddiant.

## EIN NOD STRATEGOL 2026 - 2030

Ein Nod Strategol 2026–2030 yw darparu eiriolaeth o ansawdd uchel, gwasanaethau adferol i deuluoedd a chyfleoedd cyfranogi sy'n sicrhau y gall pob plentyn, person ifanc a theulu yng Nghymru ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae'r nod hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i hawliau, tegwch ac arferion adferol. Mae'n cydnabod y pwysau cynyddol sy'n wynebu teuluoedd a'r angen am gymorth cynnar, gwybodaeth glir, ac eiriolaeth gyson.

Mae hefyd yn atgyfnerthu rôl TGP Cymru fel sefydliad annibynnol dibynadwy sy' n ymhelaethu ar leisiau, yn cryfhau cysylltiadau teuluol, yn herio anghydraddoldeb ac yn gweithio ar y cyd ar draws sectorau i wella canlyniadau.



# AMCANION STRATEGOL

**Mae'r amcanion hyn yn amlinellu sut y byddwn yn cyflawni ein cenhadaeth a'n nod strategol. Maent yn adlewyrchu lleisiau plant, pobl ifanc, teuluoedd, staff, ymddiriedolwyr a phartneriaid, ac yn aros wedi'u gwreiddio mewn hawliau, ymarfer adferol, cydraddoldeb, cyfranogiad a chyflawni ar sail tystiolaeth.**

## 1. Llywodraethu, Arweinyddiaeth a Dylanwad

Byddwn yn cryfhau llywodraethu trwy Fwrdd medrus, amrywiol, gwneud penderfyniadau tryloyw a goruchwyliaeth gadarn. Bydd ymddiriedolwyr yn derbyn hyfforddiant, mentora a disgwyliadau clir.

Wrth i Gymru fynd i dymor newydd yn y Senedd, byddwn yn ymgysylltu'n adeiladol â llunwyr polisi, yn cyfrannu tystiolaeth ac yn eirioli dros systemau sy'n cynnal hawliau plant a lles teuluoedd. Bydd ein harweinyddiaeth yn parhau i fod yn weladwy, wedi'i ysgogi gan werthoedd ac wedi'i seilio ar brofiad bywyd.

## 2. Datblygu'r Gweithlu, Pobl a Diwylliant

Mae ein gweithlu yn ganolog i'n llwyddiant. Byddwn yn meithrin diwylliant o les, ymarfer myfyriol ac ymddiriedaeth. Mae staff yn gwerthfawrogi ethos cefnogol TGP Cymru, a byddwn yn ei ddiogelu a'i ddatblygu.

Byddwn yn buddsoddi mewn hyfforddiant o ansawdd uchel, yn annog cydweithredu ar draws timau, yn cryfhau sefydlu ac yn sicrhau bod ein gweithlu yn adlewyrchu amrywiaeth Cymru. Wrth i ddisgwyliadau digidol dyfu, byddwn yn cefnogi staff i ddefnyddio technoleg fodern, gan gynnwys offer AI diogel a moesegol.

## 3. Seilwaith a Datblygu Digidol

Byddwn yn moderneiddio a symleiddio systemau digidol i wella effeithlonrwydd, diogelwch data a phrofiad staff. Mae hyn yn cynnwys cryfhau diogelu digidol a sicrhau defnydd moesegol, o dechnoleg sy'n seiliedig ar hawliau. Bydd ein buddsoddiad yn galluogi gweithio ystwyth ac yn cefnogi darparu gwasanaethau o ansawdd uchel ledled Cymru.

## 4. Gwasanaethau Eiriolaeth

Byddwn yn cynnal ac yn tyfu cynnig eiriolaeth ein plant a phobl ifanc. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol i ymgorffori eiriolaeth statudol yng Nghymru ymhellach.

Rydym yn gwybod bod angen gwasanaethau eiriolaeth cyffredinol, a byddwn yn parhau i adeiladu partneriaethau cryf gydag addysg, iechyd, tai a gofal cymdeithasol, i gynyddu cyfleoedd i blant a phobl ifanc gael mynediad at eiriolaeth sy'n seiliedig ar hawliau ar adegau tyngedfennol.

Mae eiriolaeth rhieni yn fecanwaith ymyrraeth gynnar hanfodol, y byddwn yn ei gynnig i rieni sy'n llywio prosesau amddiffyn plant. Bydd ein grwpiau cyfranogiad rhieni yn ysgogi newid systemig, gan ddod â phrofiadau gwell i rieni yn y dyfodol.

CYNLLUN STRATEGOL
2026|2030

tgp CYMRU
PLANT A THEULUOEDD
CHILDREN AND FAMILIES

## 5. Gwasanaethau Adferol i Deuluoedd

Mae ymarfer adferol yn parhau i fod yn gryfder craidd i TGP Cymru ac yn sail i'n holl wasanaethau teuluol, gan gynnwys y Tîm o Amgylch y Denantiaeth, y Gwasanaethau i Gyn-filwyr a'u Teuluoedd, Teithio Ymlaen, y Rhaglen Hawliau Lloches a'r Gwasanaeth Cyfarfod Grŵp Teulu. Byddwn yn ceisio cyllid ac yn parhau i ehangu a chryfhau'r gwasanaethau hyn, codi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol, ac archwilio cyfleoedd i ddatblygu dulliau adferol ymhellach o fewn cyd-destunau sy'n wynebu oedolion lle gall hyn fod o fudd i deuluoedd cyfan. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod gwerthoedd adferol yn cael eu hymgorffori'n gyson ledled y sefydliad, gan gefnogi perthnasoedd cadarnhaol, datrysiad cynnar a chanlyniadau cynaliadwy i blant, oedolion a theuluoedd.

## 6. Cyfranogiad a Phrofiad Bywyd

Byddwn yn dyfnhau cyfranogiad ym mhob maes o'n gwaith. Mae hyn yn cynnwys strwythurau cynghori ieuenctid, grwpiau cyfranogiad rhieni, paneli profiad bywyd a mecanweithiau hygyrch i bobl ifanc ddylanwadu ar benderfyniadau.

Byddwn yn cryfhau dolenni adborth "fe ddywedoch chi, fe wnaethom ni" ac yn defnyddio offer creadigol, hygyrch i sicrhau bod lleisiau prin yn cael eu clywed, yn llunio ein sefydliad, yn unol ag arferion gorau'r sector.

## 7. Dylanwad, Polisi ac Ymchwil

Byddwn yn defnyddio tystiolaeth, partneriaethau ymchwil ac ymgysylltu â pholisi i ysgogi newid ehangach. Wrth i Gymru fynd i gyfnod deddfwriaethol newydd, byddwn yn cydweithio â phrifysgolion a phartneriaid sector, yn cynhyrchu mewnwelediad hygyrch ac yn sicrhau bod profiad byw yn llywio strategaethau a diwygiadau cenedlaethol.

Bydd ein gwaith dylanwadu yn ymarferol, cydweithredol ac wedi'i seilio ar werthoedd sy'n seiliedig ar hawliau.

## 8. Codi arian, Marchnata a Chyfathrebu

Byddwn yn cryfhau ein amlygrwydd ac yn sicrhau bod y cyhoedd, y partneriaid a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn deall ehangder ac effaith ein gwaith.

Byddwn yn moderneiddio ein presenoldeb digidol, yn rhannu straeon yn foesegol, yn cefnogi timau i gyfrannu at gyfathrebu ac yn datblygu llais sefydliadol cyson sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd a'n harbenigedd.

## 9. Cyfleoedd Newydd a Chynaliadwyedd

Byddwn yn nodi cyfleoedd sy'n cyd-fynd â'r angen a ddangoswyd a'n cenhadaeth, ein gwerthoedd a'n cryfderau. Mae hyn yn cynnwys twf posibl mewn addysg, eiriolaeth ADY, cymorth iechyd meddwl, dulliau adferol i oedolion ac ymyrraeth gynnar yn y gymuned.

Byddwn yn arallgyfeirio incwm lle bo hynny'n bosibl, yn diogelu sefydlogrwydd ariannol ac yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu gwerthfawrogi gan blant, pobl ifanc, teuluoedd a chomisiynwyr.

# SUT RYDYN NI'N MESUR LLWYDDIANT

Byddwn yn dangos tystiolaeth o effaith trwy ganlyniadau clir, data cyson ac adborth profiad bywyd. Bydd perfformiad yn cael ei fonitro bob chwarter ac yn flynyddol, gydag adroddiadau tryloyw i ymddiriedolwyr, comisiynwyr a'r cyhoedd.

Bydd ein mesurau yn cyfuno dangosyddion meintiol â straeon ansoddol sy'n dangos newid gwirioneddol ym mywydau plant, pobl ifanc a theuluoedd.

# CASGLIAD

Mae TGP Cymru yn dechrau'r pedair blynedd nesaf gydag eglurder, hyder a phwrpas ar y cyd. Mae'r cynllun hwn yn adlewyrchu lleisiau'r rhai sy'n credu yng ngrym eiriolaeth, ymarfer adferol a chyfranogiad i greu newid parhaol. Mae'n cyd-fynd ag arfer gorau'r sector, wedi'i seilio ar dystiolaeth a phrofiad bywyd, ac mae'n barod i ymgymryd â chyfleoedd a heriau Cymru sy'n newid.

Rydym yn cydnabod y pwysau cyn anghenion cynyddol, cyfyngiadau ariannol a chymhlethdod cynyddol, ond rydym hefyd yn cydnabod cryfder a gwydnwch y cymunedau rydym yn eu cefnogi. Drwy weithio ar y cyd, aros yn driw i'n gwerthoedd a buddsoddi yn ein pobl, byddwn yn parhau i gael effaith ystyrlon ledled Cymru.

Mae ein huchelgais yn glir: dylai pob plentyn, person ifanc, rhiant a theulu yng Nghymru gael eu clywed, eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u cefnogi. Mae'r cynllun hwn yn darparu'r sylfaen ar gyfer cyflawni'r uchelgais hwnnw ac yn nodi llwybr ar gyfer twf, partneriaeth ac arloesi.

Rydym yn gwahodd comisiynwyr, cymunedau, cyllidwyr a phartneriaid i ymuno â ni i greu Cymru decach a mwy cynhwysol lle mae hawliau plant yn cael eu gwireddu a lle mae teuluoedd yn cael eu cryfhau.

Gyda'n gilydd, byddwn yn hyrwyddo hawliau, cryfhau teuluoedd a llunio systemau fel y gall pob plentyn, person ifanc a theulu ffynnu.

tgp CYMRU
PLANT A THEULUOEDD
CHILDREN AND FAMILIES

Prif Swyddfa TGP Cymru

SPARK, Heol Maendy, Caerdydd, CF24 4HQ
Ffôn: 02920 396974
E-bost: admin@tgpcymru.org.uk

Ar gais bydd y wybodaeth hon ar gael mewn gwahanol ieithoedd a fformatau. Cysylltwch â communications@tgpcymru.org.uk
TGP Cymru yw enw gweithredol Tros Gynnal Plant. Elusen Gofrestredig 1099878 Cwmni Cyfyngedig trwy Warant 04422485 (Cymru a Lloegr) Swyddfa Gofrestredig: Spark, Heol Maendy, Caerdydd, CF24 4HQ